**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 15 Ionawr 2026**

**A Gynhaliwyd yng Nghanolfan Fusnes Conwy ac ar-lein**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Vernon Everitt | Aelod Anweithredol a Chadeirydd |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Rhian Langham | Aelod Anweithredol |
| Vinay Parmar | Aelod Anweithredol |
| James Price | Prif Weithredwr |
| Marcia Sinfield | Aelod Anweithredol |
| Peter Strachan | Aelod Anweithredol |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Polisi |
| Peter McDonald | Arsylwr (Llywodraeth Cymru) |
| Jeremy Morgan | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfiaeth |
| Ian Lucas | Cyfarwyddwr Anweithredol Cyswllt |
| Ceri Taylor | Rheolwr Cymorth Corfforaethol |
| Lorenzo Visentin | Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (Eitem 3) |
| Alan McCarthy | Arsylwr Undebau Llafur (Eitem 4) |
| Zoe Smith-Doe | Pennaeth Adrodd Corfforaethol (Eitem 8) |
| Marie Daly | Prif Swyddog Gweithredu (Eitem 6) |
| Dan Tipper | Prif Swyddog Seilwaith (Eitem 6) |
| Lee Robinson | Cyfarwyddwyr Gweithredol Trafnidiaeth Ranbarthol (Eitem 5) |
| Rhanddeiliaid awdurdodau lleol Gogledd Cymru (Eitem 9) | Gwen Thomas - Rheolwr Trafnidiaeth Strategol (Wrecsam), Tony Ward - Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi (Sir Ddinbych), Iwan ap Trefor - Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau (Gwynedd), y Cynghorydd Paul Johnson - Dirprwy Arweinydd (Sir y Fflint), y Cynghorydd Ieuan Williams - Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd (Ynys Môn), Huw Percy - Pennaeth Priffyrdd (Ynys Môn) |

## Rhan A – Eitemau sefydlog

### 1a. Gair o groeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol, yn enwedig Marcia Sinfield a oedd yn dod i'w chyfarfod cyntaf fel Aelod Anweithredol newydd o'r Bwrdd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Andrew Morgan.

**1b. Hysbysiad ynghylch cworwm**

Gan fod cworwm, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan buddiant**

Dim.

**1d. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2025 yn gofnod cywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i ddiogelwch**

Trafododd y Bwrdd faterion a oedd yn deillio o eira yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, yn enwedig cwynion gan gwsmeriaid ynghylch diffyg gwybodaeth amser real digonol ar gyfer gwasanaethau bysiau. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen am systemau gwybodaeth fyw effeithiol a dibynadwy.

**1f. Sylw i gwsmeriaid**

Rhannwyd enghraifft gadarnhaol o wasanaeth i gwsmeriaid yn ymwneud â gwasanaeth TrC yng ngorsaf Birmingham New Street, lle llwyddodd staff i gael gafael ar drên i helpu'r broses o drosglwyddo teithwyr. Tynnodd y Bwrdd sylw at bwysigrwydd cydnabod a chanmol camau gweithredu cadarnhaol gan staff a chynnal gwasanaeth cyson i gwsmeriaid.

**2. Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru**

Rhoddodd Ian Lucas wybodaeth i'r Bwrdd am yr heriau presennol yn system trafnidiaeth gyhoeddus Gogledd Cymru, gan dynnu sylw at faterion diwylliannol a hanesyddol. Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd gwella trafnidiaeth ym mhob rhan o'r wlad a chysoni data cadarn i lywio'r gwelliannau hynny.

**3. Perfformiad Diogelwch**

Ymunodd Lorenzo Visentin â'r cyfarfod gan gyflwyno'r adroddiad ar berfformiad diogelwch. Roedd y prif bwyntiau yn cynnwys:

- Materion diogelwch dros gyfnod y Nadolig.
- Cynllun peilot ar gyfer amgylcheddau nad ydynt yn orsafoedd.
- Gostyngiad parhaus mewn Pasio Signalau Stop, er bod cyfraddau gwella'n arafu; bydd archwiliad manwl bychan yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol nesaf.
- Perfformiad cadarn o ran telemateg gyrwyr bysiau TrawsCymru, gan sicrhau gwelliant o 56% o'i gymharu â sgôr mis Tachwedd 2024 ac un marc oddi ar y meincnod cenedlaethol.
- Ni adroddodd Pullman Rail am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn.

[redacted]

- Yr angen i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth yr heddlu i wella lefelau diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig a sut bydd y berthynas bresennol yn esblygu i groesawu gweithrediadau aml-ddull gan gynnwys bysiau. Canolbwyntir ar hyn mewn cyfarfod bwrdd yn y dyfodol [**Gweithredu**: **Lorenzo Visentin**].

*Gadawodd Lorenzo Visentin y cyfarfod.*

**4. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf ar draws meysydd allweddol:

- Cynnydd o ran Diwygio'r Rheilffyrdd a GBR, gan gynnwys adeiladu ar y berthynas â thîm rhanbarthol Network Rail i sicrhau cydweithio a'u dal i gyfrif am berfformiad.
- Gwaith yn mynd rhagddo ar reoli cyllid rheilffyrdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Nododd y Bwrdd rôl allweddol Bwrdd Rheilffyrdd Cymru o ran cyflawni prosiectau y darparwyd cyllid ar eu cyfer yn ystod Cyfnod presennol yr Adolygiad o Wariant ac o ran nodi llif o brosiectau posibl yn y dyfodol.
- Cerbydau:
    - Mae trenau Class 197 yn perfformio'n ddigonol.
    - [redacted]
    - [redacted]
- Masnachfreinio bysiau - pwysigrwydd gosod cynsail cryf ar gyfer y fasnachfraint gyntaf gyda phwyslais ar ddatblygu manyleb gywir y gwasanaeth a deall elw ariannol gweithrediadau.
- Pullman Rail yn dangos gwelliannau gyda llai o golledion.
- Arolwg diwylliant - pryderon ynghylch lefelau ymgysylltu, yn enwedig staff rheng flaen a'r angen am weithredu dilynol gweladwy ar y cyd ar yr adborth a roddir gan staff. Bydd y Pwyllgor Pobl yn edrych ar ganlyniadau'r arolwg a'r camau i'w cymryd yn fanylach.

**5. Depos bysiau**

*Ymunodd Lee Robinson â'r cyfarfod.*

Cymeradwyodd y Bwrdd brynu tri depo bysiau yn Abertawe, Port Talbot a Rhydaman [redacted] i hwyluso'r gwaith o Fasnachfreinio Bysiau yn Ne-orllewin Cymru yn amodol ar arolygon boddhaol a chadarnhad o gyflwr asedau allweddol fel systemau golchi bysiau. Nododd y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r pryniant. Bydd canlyniadau'r arolwg safle yn cael eu hadrodd i'r Tîm Arwain Gweithredol.

*Gadawodd Lee Robinson y cyfarfod.*

**6. Cyflwyno Metro**

*Ymunodd Marie Daly a Dan Tipper â'r cyfarfod*

Croesawodd y Bwrdd bapur clir, wedi'i gynllunio'n dda, sy'n nodi'r dull strategol ar gyfer cyflawni cynnig Metro De Cymru wrth i wasanaethau newid i fodel gweithredu amledd uchel ar ffurf Metro o 2026 ymlaen, gan ddiffinio'r prif flociau adeiladu sydd eu hangen i sicrhau profiad cyson sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Trafododd y Bwrdd opsiynau amlder gwasanaeth o ran amserlennu a llwybrau a derbyniodd yr argymhelliad o ddull hybrid o fabwysiadu strategaeth gwybodaeth i gwsmeriaid a dangosyddion perfformiad allweddol sy'n seiliedig ar lwybrau ar goridorau Metro amledd uchel i'r gogledd o Gaerdydd, gan gadw rheoleiddio ar sail amserlen ar gyfer pob rhan arall o rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys y rheini ar Seilwaith Network Rail. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i ymgysylltu â chwsmeriaid a chael cynlluniau ynghylch sut i fonitro adborth ac ymddygiad cwsmeriaid.

Gan gydnabod yr heriau a'r sensitifrwydd, cymeradwyodd y Bwrdd hefyd y strategaeth toiledau a argymhellwyd yn seiliedig ar egwyddorion craidd argaeledd, ansawdd a dibynadwyedd, gwybodaeth glir, digwyddiadau a tharfu a diogelwch a mynediad, ond gan bwysleisio'r angen i fod yn ystwyth mewn achosion lle'r oedd angen i drefniadau fod yn newidiadau neu gael eu haddasu, yng ngoleuni profiad gyda gwasanaeth gweithredol byw. Cadarnhawyd bod ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda grwpiau hygyrchedd.

Cymeradwyodd y Bwrdd argymhelliad ar gyfer y dull gweithredu ar gyfer polisi a gweithdrefnau trenau sy'n sownd, yn

seiliedig ar osod targed strategol o ennill statws Platinwm, gan gydnabod bod hyn yn gynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth o ran lles cwsmeriaid, gallu gweithredol, a pharodrwydd cydweithwyr.

*Gadawodd Marie Daly a Dan Tipper y cyfarfod*

**7. Llywodraethu**

Nododd y Bwrdd wybodaeth ddiweddaraf yr is-gwmnïau ar gyfer Rheilffyrdd TrC Cyf, Pullman a Ffeibr. Nododd y Bwrdd fod James Price yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o fwrdd cwmni Ffeibr a chafodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd da sy'n cael ei wneud o ran gwerthiant a'r galw cynyddol i ddarparu gwasanaethau oddi ar y rhwydwaith, sy'n cael ei drafod â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Cymeradwyodd y Bwrdd benderfyniad y bwrdd Gwasanaethau Arloesi (TfWIS) i beidio ag ymestyn y Cytundeb Gwasanaethau y tu hwnt i'w dymor presennol sy'n dod i ben ym mis Chwefror 2026. Mae'r cytundeb hwn yn sail i'r trefniant Menter ar y Cyd cyfan rhwng TrC a Keolis/Amey, ac mae paratoadau ar y gweill i ddatgymalu menter ar y cyd Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru. Disgwylir i hyn ddigwydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf ac mae tîm rhyddhau traws-swyddogaethol wedi cael ei sefydlu yn TrC i oruchwylio'r broses.

**8. Yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cynllun busnes a dangosyddion perfformiad allweddol.**

*Ymunodd Zoe Smith-Doe â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd fod 92% o gerrig milltir Cynllun Busnes 2024/25 yn dal ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda 54% wedi'u cwblhau hyd yma. Mae 13 o weithgareddau newydd wedi cael eu hychwanegu ac mae saith eitem wedi gofyn am oedi, ac mae angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddwy ohonynt.

Nodwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol. Trafododd y Bwrdd yr angen i gysoni ag amcanion Personol y Bwrdd Gweithredol a'r angen parhaus i adlewyrchu rôl TrC o ran darparu gwasanaeth trafnidiaeth aml-ddull. Cytunodd Marcia Sinfield i adolygu cyfres arfaethedig o ddangosyddion perfformiad allweddol cyn y cyfarfod nesaf [**Gweithredu**].

**9. Sesiwn rhanddeiliaid**

Croesawodd y Bwrdd randdeiliaid o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â darparu atebion teithio llesol a thrafnidiaeth ehangach ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nodwyd bod angen amrywiaeth o ymyriadau gwahanol ar wahanol ardaloedd yng Nghymru.

Codwyd pryderon ynghylch gostyngiadau mewn llwybrau bysiau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Trafnidiaeth Cymru a swyddogion awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio data a gwybodaeth a rennir drwy fodelau trafnidiaeth rhanbarthol, gan gefnogi cynllunio cydweithredol. Nodwyd bod trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw (DRT), gan gynnwys y model Fflecsi, yn ffordd effeithiol o ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd heb lawer o ddefnyddwyr, gyda chynlluniau peilot yn cael eu hannog.

Trafodwyd enghreifftiau masnachfreinio, fel y twf sylweddol mewn defnyddwyr a welwyd ym Manceinion, gan nodi'r gofyniad cyfatebol am fwy o gyllid refeniw. Dangosodd profiad lleol yn Ynys Môn barodrwydd i ddefnyddio Fflecsi ymhellach. Cafodd y staff ychwanegol a ddarparwyd gan TrC ei gydnabod fel adnodd a oedd yn galluogi treialon a datblygu prosiectau arloesol.

Trafodwyd cynlluniau trafnidiaeth gymunedol, gan gyfeirio’n benodol at gynlluniau dan arweiniad gwirfoddolwyr ar Ynys Môn. Mae cynnal capasiti gwirfoddolwyr yn dal yn her, er bod TrC wedi cefnogi darparwyr gyda data a thystiolaeth ar gyfer ceisiadau am gyllid. Nodwyd bod newid ymddygiad yn flaenoriaeth strategol bwysig, gyda phwyslais ar ddefnyddio rhwydweithiau cymunedol i ddylanwadu ar newid dulliau teithio, er enghraifft, annog preswylwyr i gyfnewid un daith mewn car o bob pedwar am daith ar fws.

Pwysleisiodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a Bwrdd TrC yr angen am integreiddio cryfach rhwng trafnidiaeth a’r system gynllunio. Dylai Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol siapio cynlluniau datblygu lleol.
Awgrymwyd dulliau safonol ledled Cymru o ymdrin ag Adran 106 a’r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) er mwyn cefnogi ymyriadau trafnidiaeth yn well. Cynigiwyd pecyn cymorth Adran 106 posibl dan arweiniad TrC, gan gynnwys astudiaethau achos lle mae datblygiadau sy’n canolbwyntio ar drafnidiaeth wedi cael eu blaenoriaethu.

Nodwyd bod asesiadau trafnidiaeth sy’n cyd-fynd â cheisiadau cynllunio yn anghyson o ran ansawdd, ac roedd gofynion WelTAG yn dal yn heriol. Nododd y Bwrdd hefyd y cyfleoedd a gollwyd mewn ceisiadau cynllunio mawr, gan gynnwys cynnig blaenorol Wylfa nad oedd yn edrych ar fynediad ar y rheilffyrdd ar gyfer y gweithlu a ragwelir. Tynnwyd sylw at gyfleoedd i ymgysylltu â datblygwyr newydd, gan gynnwys Rolls Royce.

Cafwyd trafodaeth bellach yn ymdrin â’r potensial ar gyfer cyfraniadau gan y sector preifat at fuddsoddi mewn trafnidiaeth yng Ngogledd-orllewin Cymru, natur leol y galw am drenau mewn ardaloedd fel Sir y Fflint, a’r cyfle i gynyddu’r nifer sy’n defnyddio gorsafoedd rheilffordd drwy wasanaethau lled-drefol amlach. Ailadroddwyd pwysigrwydd cydweithio agos â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Nodwyd bod trydaneiddio Prif Reilffordd Gogledd Cymru yn flaenoriaeth allweddol i’r rhanbarth, a bod angen ymgysylltu’n barhaus. Nodwyd potensial strategol Porthladd Caergybi ar gyfer cludo nwyddau ar y rheilffyrdd, gan gyfeirio at drafodaethau blaenorol gyda gweithredwyr ym Mhrydain ac Iwerddon. Codwyd materion yn ymwneud â choridorau rheilffyrdd lleol hefyd, gan gynnwys llinell Amlwch.

Cafwyd trafodaeth ar werth llais rhanbarthol ar y cyd, gan gydnabod nad yw ffiniau gweinyddol bob amser yn adlewyrchu anghenion trafnidiaeth lleol. Croesawyd rôl TrC yn cefnogi cydweithio o’r fath.

Ystyriwyd cynlluniau rhannu ceir, gyda thystiolaeth yn awgrymu bod nifer fawr o grwpiau gweithlu penodol fel athrawon a gweithwyr shifft yn manteisio arnynt, yn enwedig pan fo trefniadau parcio a theithio ar gael i'w helpu. Mae perygl o orbwysleisio teithio gan gymudwyr, sy’n cyfrif am ddim ond tua 20% o gyfanswm y traffig. Mae ystyriaethau atebolrwydd yn dal yn her i awdurdodau lleol, er y gallai TrC ddarparu cymorth.

Daeth y Bwrdd i ben gyda thrafodaeth gadarnhaol ar ddiwygio bysiau, gan gydnabod y cyfleoedd sylweddol y mae’n eu cynnig i ddarparu gwell trafnidiaeth i bobl y rhanbarth.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a’u presenoldeb a daeth â’r cyfarfod i ben.